## Cynnwys

**Cyfle am Swydd: Swyddog Ieuenctid .................................................. 1**
**Cyflwyniad i Ffilm Cymru Wales.......................................................... 2**
**Y Rôl ..................................................................................................... 2**
**Cyfrifoldebau ....................................................................................... 3**
**Proffil yr Ymgeisydd ............................................................................ 4**
**Mynediad a Chynrychiolaeth .............................................................. 5**
**Sut i Wneud Cais ................................................................................. 6**

# Cyfle am Swydd: Swyddog Ieuenctid

**Rydym yn chwilio am Swyddog Ieuenctid i helpu i greu cyswllt â phobl ifanc drwy ein gwaith mewn addysg ffilm.**

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | Mae gennym swyddfeydd yng Nghaerdydd, gyda llawer o staff yn gweithio’n hybrid gartref ac yn y swyddfa. Efallai y byddwch yn dymuno gwneud yr un peth. Fodd bynnag, gallech fod wedi eich lleoli yn unrhyw le yng Nghymru. Bydd y rôl hon yn cynnwys rhywfaint o deithio ledled Cymru. |
| Cyfnod: | Amser llawn – sef 35 awr yr wythnos, y gellir eu gweithio dros 4 neu 5 diwrnod. |
| Penodol: | Blwyddyn, gyda'r potensial i ymestyn. |
| Cyflog: | £22,000 - £26,000, yn ddibynnol ar brofiad. |
| Dechrau: | Cyn gynted â phosibl. |

**Ffilm Cymru Wales**
**Cyfle am Swydd: Swyddog Ieuenctid**

## Cyflwyniad i Ffilm Cymru Wales

Mae Ffilm Cymru Wales wedi ymrwymo i hyrwyddo sector ffilm Cymru a gwella mynediad at ffilm a'i fanteision i bobl Cymru. Rydym yn gweithio ar draws cadwyn gyflenwi'r sector, gan gefnogi datblygu ffilmiau, cynhyrchu, arddangos ac addysg ffilm / y cyfryngau, gan gynnig cyngor, cyllid, datblygu sgiliau ac eiriolaeth.

Yn ganolog i'n holl waith mae ein hymrwymiad i gynhwysiant: rydym yn hyrwyddo ac yn cefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ein holl weithgareddau ac yn gweithio'n frwdfrydig i dargedau sy'n adlewyrchu ein cenedl ddwyieithog.

I gael rhagor o wybodaeth am Ffilm Cymru Wales, ewch i'n gwefan.

## Y Rôl

Mae ein tîm Cynulleidfa ac Addysg yn rheoli cronfeydd y Loteri Genedlaethol ac yn darparu cymorth ehangach gyda'r nod o hyrwyddo diwylliant ffilm cyfranogol a chynhwysol sy'n agored i bawb. Fel rhan o hyn, rydym yn ariannu prosiectau addysg ffilm sy'n ysbrydoli camau cyntaf pobl ifanc i ddeall, archwilio a chreu ffilmiau, gan ddatblygu dealltwriaeth feirniadol ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol y cyfranogwyr yn ogystal â'u harfer creadigol.

Caiff prosiectau a ariennir eu cyflawni gan ymarferwyr addysg ffilm annibynnol ac maent yn aml wedi'u hanelu at y rhai sydd fwyaf ar y cyrion a chan annog yr ymgysylltiad ehangaf posibl yn niwylliant ffilm ffyniannus Cymru.

Gan weithio i'r Rheolwr Cynulleidfa ac Addysg (rheolwr llinell), bydd y Swyddog Ieuenctid yn ymwneud yn uniongyrchol â phobl ifanc – ochr yn ochr ag ymarferwyr addysg a ariennir i ddechrau ac yna, ar ôl i brosiectau a ariennir gael eu cwblhau, i sefydlu cyswllt uniongyrchol a thymor hwy â phobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau rydym wedi'u hariannu a chael gwell dealltwriaeth o'u diddordeb ehangach mewn ffilmiau a'r ffordd orau i gefnogi hynny drwy ein darpariaeth gyffredinol fel

cwmni. Gallai hyn, er enghraifft, gynnwys cyfeirio at sinemâu lleol, addysg, sgiliau, rhwydweithiau, digwyddiadau o ddarpariaeth broffesiynol – fel sy'n briodol o ran oedran, lleoliad a diddordebau.

Caiff ein gwaith ei gefnogi gan y British Film Institute (BFI) a Chyngor Celfyddydau Cymru (CCC). Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru gan gynnwys Cymru Greadigol a nifer o randdeiliaid fel Gyrfa Cymru, Bafta Cymru, Into Film Cymru a Chanolfan Ffilm Cymru (BFI FAN).

## Cyfrifoldebau

Mae hon yn rôl brysur ond gwerth chweil, yn gweithio mewn tîm ymroddedig sy'n angerddol am ddiwylliant ffilm ac yn datblygu ymgysylltiad ledled Cymru. Mae'n galw am lefel dda o weithio hyblyg gyda nifer o randdeiliaid ac ar eu cyfer. Byddwch yn gyfrifol am y canlynol:

- Dylunio a chyflwyno gweithdai i gyfranogwyr ein prosiectau a ariennir gennym i godi eu hymwybyddiaeth o Ffilm Cymru, diwydiant ffilm a theledu ffyniannus Cymru a diwylliant ffilm yn ehangach;
- Datblygu gohebiaeth ddifyr i gyfranogwyr (drwy eu rhieni/gofalwyr) prosiectau addysg ffilm a ariennir (11-16 oed fel arfer a chyfranogwyr anabl (dim terfyn oedran uchaf)) i gynnal cyswllt, lle mae ein darpariaeth yn berthnasol y tu hwnt i'r prosiect addysg cychwynnol;
- Cynnig cyngor cyffredinol a chyfeirio at gyfleoedd pellach wedi'u teilwra i anghenion yr unigolyn, gan nodi llwybrau i hybu eu datblygiad personol gyda chyfleoedd eraill gan Ffilm Cymru neu sefydliadau trydydd parti;
- Sicrhau amgylchedd diogel (ar-lein ac wyneb yn wyneb) i gyfranogwyr bob amser, gan baratoi asesiadau risg a glynu wrth bolisïau a gweithdrefnau amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed;
- Datblygu strategaeth ymgysylltu i wella allgymorth ac ymgysylltu fel y gallwn hyrwyddo arferion gorau ac astudiaethau achos a meithrin dealltwriaeth;

- Bwydo i mewn i strategaethau marchnata a chyfathrebu a chymryd perchnogaeth o elfennau fel rhestrau postio a chyfryngau cymdeithasol drwy greu cynnwys a rheoli ymgysylltiad;
- Hwyluso a hyrwyddo digwyddiadau a/neu hyrwyddiadau rheolaidd i bobl ifanc wedi'u cynllunio i barhau â'u cyswllt â Ffilm Cymru yn ogystal â'r diwydiant ffilm ehangach a'r diwylliant ffilm annibynnol yng Nghymru;
- Rheoli eich gweinyddiaeth eich hun, yn unol â gofynion diogelu data a phreifatrwydd;
- Cyfrannu at ein proses o werthuso ac adrodd, gan gynnwys datblygu dulliau casglu data sy'n briodol o ran oedran i ddarparu dealltwriaeth a'n helpu i fesur effaith ein cefnogaeth;
- Unrhyw dasgau eraill a allai fod yn ofynnol yn rhesymol o'r rôl hon o bryd i'w gilydd.

## Proffil yr Ymgeisydd

Yn angerddol am ddatblygu a chefnogi diwylliant ffilm ledled Cymru, bydd gennych y canlynol:

**Meini prawf hanfodol:**

- Gradd anrhydedd wedi'i dilysu gan Safonau Addysg Hyfforddiant neu gymhwyster cyfatebol;
- Profiad dangosadwy o weithio gyda phobl ifanc, gan rymuso a chefnogi datblygiad personol. Rydych yn mwynhau annog ac ysbrydoli eraill i ddilyn eu nodau a chydnabod y gallai fod angen cymorth ar rai i oresgyn heriau personol, cymdeithasol neu amgylcheddol i wneud hynny;
- Sgiliau trefnu rhagorol, yn cyfathrebu'n hyderus ar lafar ac yn ysgrifenedig, a phrofiad o gyflwyno gweithdai a hwyluso digwyddiadau a hyfforddiant, ar-lein ac wyneb yn wyneb;
- Profiad dangosadwy o bolisïau a gweithdrefnau diogelu ac amddiffyn plant/pobl ifanc, ac yn hyderus wrth gadw cofnodion cyfrinachol;

- Agwedd aeddfed ac yn gyfforddus wrth ddarparu cymorth dibynadwy mewn amgylchedd deinamig, gan weithio gyda phobl ifanc a/neu oedolion sy'n agored i niwed;
- Sgiliau gweinyddol a chyfathrebu rhagorol ac ran cyflawni prosiectau. Mae hyfedredd yn defnyddio Ms Office yn hanfodol - gan gynnwys gwybodaeth ymarferol dda am MS Excel; ynghyd â phrofiad o gyflawni, gwerthuso ac adrodd yn erbyn targedau diffiniedig;
- Ymrwymiad dangosadwy i wella cynwysoldeb;
- Y gallu i hunanreoli a gweithio o fewn tîm bach;
- Gwiriad clir cyfresol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS);
- Parodrwydd i deithio i ymweld â sefydliadau a gefnogir a chyfranogwyr ledled Cymru ac i weithio oriau anghymdeithasol, o bryd i'w gilydd;
- Gwerthfawrogiad dangosadwy o reoliadau GDPR ac Iechyd a Diogelwch o fewn amgylchedd dysgu, swyddfa, hyfforddiant a digwyddiadau (bydd hyfforddiant ar gael);

**Dymunol:**

- Mae rhuglder yn y Gymraeg (yn ysgrifenedig ac ar lafar) yn ddymunol iawn ond nid yn hanfodol;
- Yn gyfarwydd â’r wybodaeth ddiweddaraf am reoliadau Covid-19 y Llywodraeth gyda dealltwriaeth o sut y cânt eu gweithredu mewn lleoliadau addysgol;
- Trwydded yrru gyfredol a glân yn y DU;
- Dealltwriaeth glir a manwl o raglenni amrywiol addysg ffilm, teledu a'r cyfryngau ledled Cymru.

## Mynediad a Chynrychiolaeth

Rydym wedi ymrwymo i ehangu cynrychiolaeth a phrofiad byw o fewn ein sefydliad. Byddwn yn cynnig cyfweliad yn awtomatig i bob ymgeisydd sy'n bodloni neu'n dangos potensial cryf yn erbyn ein meini prawf gofynnol ac sy'n ystyried eu hunain yn Bobl o'r Mwyafrif Byd-eang, yn Bobl Dduon, Asiaidd neu Leiafrifoedd Ethnig a/neu’n F/byddar, yn drwm eu clyw, yn anabl neu’n niwroamrywiol.

Gallwn dderbyn a darparu gwybodaeth a chael mynediad at geisiadau mewn fformatau gwahanol, ac fe’ch anogwn i gysylltu â Sion Eirug – sion@ffilmcymruwales.com – i drafod sut y gallwn gefnogi eich anghenion mynediad.

## Sut i Wneud Cais

**Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw hanner dydd ddydd Iau 30ain Mehefin 2022.**

Cynhelir cyfweliadau ar-lein ar 11eg a 12fed Gorffennaf 2022.

Gallwch wneud cais drwy anfon e-bost yn cynnwys CV ynghyd â llythyr eglurhaol yn nodi pam mae gennych ddiddordeb yn y rôl, sut rydych yn bodloni'r meini prawf sydd wedi’u rhestru fan yma a phryd y byddech yn gallu dechrau gweithio gyda ni.

Os oes gennych ofynion mynediad, gallwn gytuno gyda chi ynghylch fformatau ymgeisio gwahanol, fel cyflwyno cais byr wedi'i ffilmio. Cysylltwch â sion@ffilmcymruwales.com i drafod.

Anfonwch eich cais drwy e-bost at sion@ffilmcymruwales.com